**Dyddiad: 14 Mawrth 2001**

**Lle: Ystafell Bwyllgora 3 , Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol**

**Teitl:** YMGYNGHORI AR RAGLEN DDATBLYGU 2001-2006

## 1. **Diben a Chefndir**

1.1 Nodir yn y papur hwn gynigion ar gyfer rhaglen ddatblygu 5 mlynedd yn Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Mae'n cynnig fframwaith 5 mlynedd i greu gweledigaeth hir dymor ar gyfer y rhaglen. Hyd yma, gwnaethpwyd y gwaith hwnnw fesul blwyddyn, ond canfuwyd bod hynny'n rhy adweithiol, yn rhy fyr dymor ac yn rhy dameidiog.

1.2 Mae'r rhaglen ddatblygu'n rhan bwysig o waith yr Arolygiaeth ac mae'n ategu ei hamcanion, sef:

- hyrwyddo a lledaenu datblygiad arferion da
- cefnogi rhoi polisïau ar waith
- monitro perfformiad a hyrwyddo canlyniadau arolygiadau, ymchwil neu adolygu neu werthuso gwasanaethau eraill

1.3 Mae rhaglen bum mlynedd yn cael ei datblygu i hybu cydlynedd, cysondeb a chwmpas y gwaith a'r gallu i feithrin cysylltiad â chanlyniadau'r rhaglen arolygu 5 mlynedd.

## 2. Ystyriaethau

2.1 Mae Rhaglen Ddatblygu Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru'n gysylltiedig â rhaglenni polisi, datblygu a deddfwriaeth y Cynulliad. Mae'r rhaglen yn adlewyrchu gwaith datblygu a monitro cyffredinol yr Arolygiaeth ac yn rhoi ystyriaeth i fentrau sy'n deillio o rannau eraill o Lywodraeth y DU er mwyn creu safonau gwasanaeth cyffredin lle bo hynny'n briodol.

2.2 Golyga hynny fod y rhaglen yn aml yn un sy'n adweithio i fentrau polisi newydd na ellir o anghenraid gynllunio ar eu cyfer na'u rhagweld dros gyfnod o bum mlynedd. Gallai fod yn anodd hefyd cynllunio'n fanwl dros gyfnod o 5 mlynedd – mae datblygu'n rhywbeth esblygol ac mae sawl maes na ellir ei ohirio tan y bumed flwyddyn. Mae'r gwaith datblygu'n cynnwys amryw o weithgareddau, gan gynnwys digwyddiadau penodol megis gweithdai, sy'n rhan o'r broses yn gyffredinol. Nid yw'r gweithdai hynny'n digwydd ar eu pennau eu hunain.

2.3 Mae angen i'r rhaglen bresennol hefyd roi ystyriaeth i'r:

- agenda ar gyfer ansawdd, rheoleiddio ac arolygu;
- ymrywmiadau deddfwriaethol, yn rhai sy'n hysbys ac yn rhai a ragwelir;
- blaenoriaethau sydd eisoes wedi'u cyhoeddi (ee adsefydlu cleifion o ysbytai); a

- datblygiadau eraill a fyddai'n fuddiol.

**Y Darlun Strategol**

3.1 Mae'r atodiad amgaeedig yn nodi fframwaith ar gyfer y datblygiadau hyn, sydd wedi'u trefnu'n dair thema strategol:

- hyrwyddo ansawdd
- hyrwyddo annibyniaeth ac ateb anghenion dibyniaeth
- diogelu pobl fregus

Mae'r rhaglen yn rhoi ystyriaeth i gyfraniad y Gwasanaethau Cymdeithasol i'r canlynol:

- cydraddoldeb
- cynaliadwyedd
- cynhwysiant cymdeithasol
- cymunedau
- cydweithio / sy'n nodweddion sylfaenol yng ngwaith Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

3.2 Mae'n rhaid i'r Cynulliad roi blaenoriaeth i sicrhau bod darpariaethau gwasanaethau cymdeithasol sylfaenol ar gael a bod eu hansawdd yn dderbyniol. Oni wneir hynny, ni fydd fawr o sylwedd i'r datblygiadau newydd, nac i'r ymgyrch dros gydweithio. Mae Papur Gwyn y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Ddeddf Safonau Gofal yn rhoi ansawdd ar frig yr agenda.

## 4. Y Rhaglen Arfaethedig

4.1 Yn sgil yr ystyriaethau hyn rydym am gynnig y dylid mynd ati'n thematig i wneud y gwaith datblygu. Bydd hyn yn fwy penodol yn y blynyddoedd cynnar ond nodir cyfeiriadau dros gyfnod o 5 mlynedd. Er enghraifft, wrth ymdrin ag asesu'r henoed, cynigir y dylai un broses asesu sefydledig fod ar waith ar gyfer yr henoed erbyn y bumed flwyddyn. Bydd hyn yn gysylltiedig hefyd ag egwyddorion a fydd yn berthnasol i holl ystod y cleientiaid. Nod hir dymor yw hwn, a bydd y camau y bydd angen eu cymryd yn gliriach yn y flwyddyn gyntaf nag yn y blynyddoedd wedi hynny. Gallai'r llwybr amrywio gryn dipyn wedyn, yn dibynnu ar y cyfleoedd a ddaw a'r cynnydd a wneir ond yr un fydd y nod yn y tymor hir.

4.2 Nodir yn yr atodiad amgaeedig themâu a thargedau'r 5 mlynedd. Gofynnir am sylwadau ar:

- yr agwedd gyffredinol
- y themâu penodol
- y targedau hir dymor
- camau'r flwyddyn gyntaf

***ATODIAD***

***AROLYGIAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYMRU***

**RHAGLEN DDATBLYGU 5 MLYNEDD**

| *THEMÂU STRATEGOL* | *MEYSYDD CRAIDD* | *TARGEDAU BLWYDDYN 1 / 2* | *CYFEIRIAD 5 MLYNEDD* |
|---|---|---|---|
| ***Hyrwyddo Ansawdd*** | Arolygiaeth Safonau Gofal (CSI) | Rhoi’r CSI ar waith erbyn 2002 | CSI yn llwyr weithredol ac yn cyflawni safonau ansawdd |
| | Cyngor Gofal }<br>}<br>}<br>}<br>}<br>} | Rhoi’r Cyngor Gofal ar waith erbyn mis Hydref 2001 gan gynnwys cyhoeddi codau ymddygiad ac ymarfer a materion y gweithlu | Cofrestru Gweithwyr Cymdeithasol a Staff Gofal Plant Preswyl wedi’i gwblhau. Ar y gweill ar gyfer staff arall.<br><br>Y Cyngor Gofal yn rheoli materion y gweithlu gan gynnwys cymwysterau a recriwtio |
| | }<br><br>Strategaeth Ansawdd a Rheoli'r }<br>Gwasanaethau Cymdeithasol }<br><br>}<br><br>Hyfforddi, Recriwtio a Chadw } | Cwblhau’r ymgynghori ar y Strategaeth Ansawdd gan gynnwys datblygu:<br><br>• polisi hyfforddi<br>• adolygu’r Diploma Gwaith Cymdeithasol ac ariannu myfyrwyr<br>• adolygu TSP i godi safonau’r gweithlu gofal cymdeithasol<br>• datblygu fframwaith cymwysterau<br>• helpu cyflogwyr i ddatblygu strategaeth recriwtio a chadw gan ddefnyddio archwiliadau’r gweithlu<br>• SCIE (Sefydliad dros Ragoriaeth mewn Gofal Cymdeithasol)<br>• Arwain a Rheoli Llywodraethu | Gweithio tuag at dargedau cymwysterau staff.<br><br>Trefniadau diwygiedig ar gyfer y Diploma mewn Gwaith Cymdeithasol ar waith.<br><br>Trefniadau ariannu myfyrwyr wedi'u sefydlu. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | SCIE wedi'i sefydlu ac yn cynhyrchu canllawiau ymarfer ar sail tystiolaeth.<br><br>Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhan o'r agenda ar gyfer cymunedau lleol a llywodraeth leol |

***ATODIAD***

***AROLYGIAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYMRU***

**RHAGLEN DDATBLYGU 5 MLYNEDD**

| ***THEMÂU STRATEGOL*** | ***MEYSYDD CRAIDD*** | ***TARGEDAU BLWYDDYN 1 / 2*** | ***CYFEIRIAD 5 MLYNEDD*** |
|---|---|---|---|
| | Fframwaith Rheoli Perfformiad | Sefydlu'r prif elfennau<br>• Cynllunio<br>• Gwybodaeth reoli<br>• Systemau TG | Y fframwaith llawn wedi'i sefydlu ac yn cael ei fonitro |
| | Cwynion | Paratoi ar gyfer newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth a chanllawiau<br><br>Cefnogi rhoi hyn ar waith | Adlewyrchu'r newidiadau mewn gweithdrefnau newydd |
| | Ymchwil | Defnyddio a datblygu'n llawn raglenni Swyddfa Ymchwil a Datblygu Cymru | Datblygu arferion ar sail tystiolaeth/ ymchwil |
| | Plant yn Gyntaf | Cefnogi a hyrwyddo rhoi'r rhaglen ar waith<br><br>Monitro cynnydd a chanlyniadau | Gwelliannau'n rhan o wasanaethau plant |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Y Comisiynydd Plant | Hyrwyddo a helpu'r gwaith o ddatblygu mecanweithiau i hwyluso cyfathrebu rhwng y comisiynydd a gwasanaethau cymdeithasol i blant. | Mecanweithiau ar waith ac yn cael eu gwerthuso |

***ATODIAD***

***AROLYGIAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYMRU***

**RHAGLEN DDATBLYGU 5 MLYNEDD**

| *THEMÂU STRATEGOL* | *MEYSYDD CRAIDD* | *TARGEDAU BLWYDDYN 1 / 2* | *CYFEIRIAD 5 MLYNEDD* |
|---|---|---|---|
| | Safonau a chodau ymarfer cenedlaethol<br>• Gofal maeth<br>• Mabwysiadu | Rhoi safonau a chodau ymarfer cenedlaethol ar waith | Mecanweithiau ar waith i hyrwyddo a monitro cydymffurfiaeth â'r safonau a'r codau ymarfer. |
| ***Hyrwyddo Annibyniaeth ac Ateb Anghenion Dibyniaeth*** | Gofalwyr | Hyrwyddo rhoi'r strategaeth ar waith | Adolygu rhoi'r strategaeth ar waith |
| | Fframwaith Asesu ar gyfer Oedolion | Gorffen datblygu'r Fframwaith Asesu. Ymgynghori a chynlluniau peilot ar waith | Fframwaith Asesu'n llwyr weithredol |
| | Asesu a Chynllunio Gofal (gan gynnwys Rhoi ar Waith ac Adolygu) ar gyfer plant unigol a theuluoedd | Hyrwyddo a hybu agweddau allweddol ar y system Plant sy'n Derbyn Gofal gan gynnwys:<br>• Gwella iechyd plant sy'n derbyn gofal<br>• Gwella addysg plant sy'n derbyn gofal<br>• Gwella'r ffordd y defnyddir Cofnodion Gweithredu ac Asesu. | System integredig ar gyfer plant wedi'i sefydlu a'r defnydd a wneir ohono'n cael ei fonitro a'i werthuso. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Rhoi Fframwaith ar waith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd | |

***ATODIAD***

***AROLYGIAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYMRU***

**RHAGLEN DDATBLYGU 5 MLYNEDD**

| ***THEMÂU STRATEGOL*** | ***MEYSYDD CRAIDD*** | ***TARGEDAU BLWYDDYN 1 / 2*** | ***CYFEIRIAD 5 MLYNEDD*** |
|---|---|---|---|
| | | Datblygu System Integredig ar gyfer Plant er mwyn asesu, cynllunio gofal ac adolygu (rhagwelir y bydd hyn yn cael ei roi ar waith yn 2002/2003) | |
| | | Plant sy'n Gadael Gofal - hyrwyddo a cefnogi'r broses o roi newidiadau deddfwriaethol ar waith (rhoddir hyn ar waith ym mis Hydref 2001) | Trefniadau ar gyfer plant sy'n gadael gofal wedi'u sefydlu a'u perfformiad yn cael ei fonitro |
| | | Hyrwyddo cynllunio gofal parhaol, gan ystyried a yw mabwysiadu'n ddewis priodol, fel rhan o'r gwaith o asesu a chynllunio gofal plant sy'n derbyn gofal | Cynllunio gofal parhaol yn cael ei fonitro fel rhan hanfodol o asesu a chynllunio gofal |
| | | Hyrwyddo a chynorthwyo gwaith rhwng gwasanaethau i blant mewn angen a gwasanaethau cyfiawnder i bobl ifanc er mwyn: | Mecanweithiau effeithiol ar waith i hwyluso: |
| | | i. Mynd i'r afael â materion strategol gan gynnwys cynllunio a chomisiynu gwasanaethau a diogelu'r cyhoedd | 1. Cynllunio a chomisiynu gwasanaethau a diogelu'r cyhoedd yn strategol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ii. Hwyluso gwaith asesu a chynllunio gofal sy'n gydlynol, gan gynnwys ystyried materion yn ymwneud â diogelu'r cyhoedd, ar gyfer plant mewn angen sydd hefyd yn mynd drwy'r system cyfiawnder i bobl ifanc, er enghraifft: | 2. Asesu a chynllunio gofal ar gyfer plant mewn ffordd gydlynol. |

***ATODIAD***

***AROLYGIAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYMRU***

**RHAGLEN DDATBLYGU 5 MLYNEDD**

| ***THEMÂU STRATEGOL*** | ***MEYSYDD CRAIDD*** | ***TARGEDAU BLWYDDYN 1 / 2*** | ***CYFEIRIAD 5 MLYNEDD*** |
|---|---|---|---|
| | | ○ Plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n gadael gofal<br>○ Plant sy'n destun ymchwiliad amddiffyn plant ac sydd ar gofrestr amddiffyn plant<br>○ Plant anabl a phlant a chanddynt anawsterau dysgu<br>○ Gofalwyr Ifanc | |
| | Asesu a Chynllunio Gofal yn Gyffredinol | Cynllunio'r cyfnod pontio: meithrin cysylltiad effeithiol rhwng gwasanaethau i blant a gwasanaethau i oedolion | Mecanweithiau effeithiol ar gyfer y cyfnod pontio ar waith ac yn cael eu monitro gan yr awdurdodau lleol |
| | Taliadau Uniongyrchol | Adolygu mecanweithiau cymorth a defnydd | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Comisiynu a Phrynu Gwasanaethau i Oedolion | Datblygu strategaethau i wella dewis a sefydlogrwydd wrth gomisiynu gwasanaethau | Strategaethau comisiynu ar waith |
| | | Codi tâl: Helpu i ddatblygu canllawiau ar godi tâl<br><br>Cefnogi Pobl: galluogi adrannau gwasanaethau cymdeithasol i rannu gwaith dysgu a pharatoi ar gyfer Cefnogi Pobl | Trefniadau ar waith ar gyfer codi tâl mewn ffordd sy'n deg<br><br>Cefnogi Pobl wedi'i roi ar waith |

***ATODIAD***

***AROLYGIAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYMRU***

**RHAGLEN DDATBLYGU 5 MLYNEDD**

| ***THEMÂU STRATEGOL*** | ***MEYSYDD CRAIDD*** | ***TARGEDAU BLWYDDYN 1 / 2*** | ***CYFEIRIAD 5 MLYNEDD*** |
|---|---|---|---|
| | Comisiynu a Phrynu Gwasanaethau i Blant | Hyrwyddo datblygiad fframwaith i helpu awdurdodau i ddatblygu strategaethau ar gyfer comisiynu a phrynu gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal sy'n rhoi mwy o ddewis o ran lleoliadau ac yn rhoi mwy o sefydlogrwydd i blant, ac sydd hefyd yn mynd i'r afael â'r canlynol:<br><br>• Cadw a recriwtio gofalwyr maeth<br>• Lleoliadau ar gyfer plant a chanddynt anghenion cymhleth<br>• Gwasanaethau arbenigol i helpu plant sydd wedi'u lleoli a'u gofalwyr<br><br>Hyrwyddo datblygiad gwasanaethau cynnal teuluol i blant mewn angen sy'n byw gartref, gan gynnwys plant anabl.<br><br>Hyrwyddo datblygiad gwasanaethau cymorth ar ôl mabwysiadu | Fframwaith ar waith.<br><br>Startegaethau ar gyfer comisiynu a phrynu gwasanaethau wedi'u datblygu ac yn cael eu gwerthuso a'u hadolygu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | Cydweithio ag Iechyd<br><br>• Fframwaith ar gyfer cydweithio | Trefniadau partneriaeth wedi'u hegluro ac yn cael eu rhoi ar waith | Trefniadau partneriaeth yn llwyr weithredol |

***ATODIAD***

***AROLYGIAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYMRU***

**RHAGLEN DDATBLYGU 5 MLYNEDD**

| ***THEMÂU STRATEGOL*** | ***MEYSYDD CRAIDD*** | ***TARGEDAU BLWYDDYN 1 / 2*** | ***CYFEIRIAD 5 MLYNEDD*** |
|---|---|---|---|
| | • Hyblygrwydd | Cefnogi rhoi hyblygrwydd ar waith a'i fonitro | Gweithio mewn partneriaeth yn llwyr weithredol |
| | • Siarter | Sefydlu safonau'r Siarter | Safonau'r Siarter ar waith |
| | • Cynllunio Cynlluniau Gwella Iechyd (HIPs) | Prosesau HIP wedi'u sefydlu mewn partneriaeth | Systemau cynllunio wedi'u sefydlu'n llwyddiannus |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Pwysau Brys/Amserau Aros | Trefniadau cynllunio ar waith | Gwasanaethau'n gallu cynllunio ar gyfer pegynau galw etc a'u rheoli |
| | • Gofal Canolraddol | Cefnogi polisïau ar gyfer datblygu gwasanaethau gofal canolraddol a'u rhoi ar waith | Gwasanaethau gofal canolraddol ar waith ac yn cael eu monitro |
| | Meysydd Penodol i Oedolion<br><br>Pobl Hyn | Ymateb i'r Comisiwn Brenhinol wedi'i ddatblygu a fframwaith wedi'i bennu i'w roi ar waith. Strategaeth Cymru'n datblygu | Polisïau ar waith ac yn cael eu monitro |
| | Iechyd Meddwl | Strategaeth Iechyd Meddwl ddiwygiedig ar waith<br><br>Cefnogi'r gwaith o ledaenu argymhellion yr arolygiadau iechyd meddwl a'u rhoi ar waith | Monitro rhoi'r strategaeth ar waith<br><br>Ar waith |

***ATODIAD***

***AROLYGIAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYMRU***

**RHAGLEN DDATBLYGU 5 MLYNEDD**

| ***THEMÂU STRATEGOL*** | ***MEYSYDD CRAIDD*** | ***TARGEDAU BLWYDDYN 1 / 2*** | ***CYFEIRIAD 5 MLYNEDD*** |
|---|---|---|---|
| | Anableddau Dysgu | Fframwaith gwasanaeth wedi'i gwblhau | Monitro rhoi'r fframwaith a'r gwasanaethau ar waith |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Anableddau Corfforol a Synhwyraidd | Gwaith arolygu ac adolygiadau ymchwil wedi'u cwblhau. Goblygiadau polisi'n cael eu hystyried | Rhoi canlyniadau polisi ar waith |
| | Camddefnyddio Sylweddau | Targedau byr dymor y strategaeth wedi'u sefydlu | Targedau tymor canol y strategaeth ar waith |
| Diogelu Pobl Fregus **(Cysylltiadau â Hyrwyddo Ansawdd)** | Datgelu Camarfer er Budd y Cyhoedd | Hyrwyddo a chefnogi datblygiad polisïau a gweithdrefnau gan ystyried gofynion deddfwriaeth a chanllawiau | **Polisïau a gweithdrefnau wedi'u sefydlu ac yn cael eu hadolygu a'u gwerthuso gan awdurdodau lleol.** |
| | Amddiffyn Plant | Rhoi Gweithio Gyda'n Gilydd a chanllawiau cysylltiedig ar waith gan gynnwys canllawiau ynghylch: | Yn parhau ac yn cael ei adolygu |
| | | • Cyfweliadau ymchwiliol â thystion bregus a deunyddiau hyfforddi cysylltiedig<br>• Salwch sy'n cael ei achosi neu ei ffugio ymhlith plant gan ofalwyr<br>• Rhannu gwybodaeth rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu yn ystod ymchwiliadau | |

***ATODIAD***

***AROLYGIAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYMRU***

**RHAGLEN DDATBLYGU 5 MLYNEDD**

| ***THEMÂU STRATEGOL*** | ***MEYSYDD CRAIDD*** | ***TARGEDAU BLWYDDYN 1 / 2*** | ***CYFEIRIAD 5 MLYNEDD*** |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Rhoi'r ymateb i Ar Goll mewn Gofal ar waith<br><br>Cydgysylltu ag awdurdodau lleol a'r Adran Iechyd i nodi materion yn ymwneud ag arferion a pholisïau sy'n deillio o ymchwiliadau cymhleth<br><br>Ymateb i adroddiadau cyffredinol ACPC ar adolygiadau Rhan 8 | Tasgau penodol wedi'u cwblhau, argymhellion o ran egwyddorion ac arferion yn rhan o raglenni arolygu a datblygu Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru<br><br>Yn parhau |
| | Amddiffyn Oedolion Bregus | Monitro gweithdrefnau ar waith | Adolygu effeithiolrwydd y gweithdrefnau |